



A yw eich cerdyn chi yn DDILYS?

O **14 Ebrill 2013** ymlaen bydd pob peiriant tocynnau ar wasanaethau bws lleol yng Nghymru yn dangos oni fydd Cerdyn Teithio Rhatach yn ddilys.

Os na fydd cerdyn yn ddilys, efallai y bydd yr awdurdod lleol a'i cyhoeddodd wedi ei ganslo.

Pam y byddai cerdyn yn cael ei ganslo?

- Os gwnaethoch chi hysbysu eich awdurdod lleol fod y cerdyn wedi cael ei golli neu ei ddwyn.
- Os cafodd ei ddefnyddio'n dwyllodrus yn flaenorol.
- Os nad oes gennych hawl bellach i deithio yn rhatach.

A oes gen i amser i wirio fy ngherdyn?

Hyd at, ac yn cynnwys **13 Ebrill 2013**, caniateir ichi deithio ar fws am ddim hyd yn oed os yw eich cerdyn wedi cael ei ganslo. Bydd hyn yn rhoi cyfle ichi wirio eich cerdyn a threfnu cael cerdyn newydd yn ei le os bydd angen.

Beth sy'n digwydd ar ôl 14 Ebrill 2013 os bydd y peiriant tocynnau yn dangos fod fy ngherdyn wedi cael ei ganslo?

- Bydd y gyrrwr yn dweud wrthyhch nad yw eich cerdyn yn ddilys ac efallai y bydd yn gofyn ichi dalu'r pris oedolyn arferol os ydych chi'n bwriadu teithio. Os nad ydych yn dymuno talu am eich tocyn efallai na fyddwch yn cael caniatâd i deithio.
- Cysylltwch â'ch awdurdod lleol ar y rhif ffôn a ddangosir ar gefn eich cerdyn cyn gynted ag y gallwch er mwyn trefnu cyhoeddi cerdyn newydd.

Mae gen i 2 (neu fwy) o gardiau. Sut ydw i'n gwybod pa un sy'n ddilys?

Os oes gennych fwy nag un cerdyn, defnyddiwch y cerdyn â'r rhif cyhoeddi 2-ddigid mwyaf – gweler isod. Bydd cardiau eraill gyda rhif cyhoeddi llai wedi cael eu canslo ac ni fyddant yn ddilys ar gyfer teithio.

Edrychwch ar 17eg a 18fed digid y rhif ar eich cerdyn



Y rhif 2-ddigid mwyaf = cerdyn dilys!

Cofiwch GAEL GWARED ag unrhyw hen gardiau, neu dychwelwch hwy i'ch awdurdod lleol.

Os nad yw eich cerdyn yn ddilys efallai y gofynnir ichi dalu am docyn

I gael rhagor o fanylion cysylltwch â'ch awdurdod lleol ar y rhif ffôn ar gefn eich cerdyn